**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG CANOLBARTH CYMRU**

**Teitl yr Adroddiad: Adroddiad Swyddog Adran 151 mewn perthynas â Phennu'r Gyllideb a Chyllid ar gyfer Blynyddoedd Ariannol 2021/22 a 2022/23**

**Dyddiad y Cyfarfod: 25 Ionawr 2022**

| | |
|---|---|
| **Diben yr Adroddiad** | Cymeradwyo cyllidebau a chyllid mewn perthynas â Chyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru (CBC y Canolbarth) ar gyfer blynyddoedd ariannol 2021/22 a 2022/23. |
| **Awdur yr Adroddiad** | Stephen Johnson |
| **Swyddog Cyllid** | Stephen Johnson |
| **Swyddogion Cyfreithiol** | Clive Pinney / Elin Prysor |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae’r adroddiad hwn y manylu ar gyllideb flynyddol Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru (CBC y Canolbarth) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 a’r flwyddyn ariannol 2022/23.

1.2 Aelodau CBC y Canolbarth fydd yn penderfynu sut y caiff gofyniad y gyllideb ei hariannu, gan gynnwys y cyfrannau a gyfrannir gan Gynghorau Sir Powys a Cheredigion ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

## 2. Cyllideb 2021/22:

2.1 Mae'n ofynnol cytuno ar gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol 2021/22.

2.2 Gan mai ym mis Ionawr 2022 y sefydlwyd CBC y Canolbarth yn ffurfiol, nid oes unrhyw gyllideb wedi'i chymeradwyo ymlaen llaw ar gyfer y flwyddyn ariannol. Mae'r gwariant a ragwelir hyd at ddiwedd

y flwyddyn o werth bach iawn a gall gael ei amsugno gan y Cynghorau Cyfansoddol.

2.3 Felly cynigir bod CBC y Canolbarth yn pennu cyllideb sero, a fyddai'n golygu na fyddai ardoll yn cael ei chodi.

**3. Cyllideb 2022/23:**

3.1 Mae'r gyllideb ar gyfer 2022/23 wedi'i chynnwys yn Atodiad A. Cyfanswm y gyllideb arfaethedig yw £160,000 sy'n cynnwys £120,000 ar gyfer y Gyllideb Gyffredinol a £40,000 ar gyfer y Gyllideb Cynllunio Strategol.

3.2 Argymhellir bod Cynghorau Sir Powys a Cheredigion yn ariannu'r Gyllideb Gyffredinol yn gyfartal.

3.3 Argymhellir bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ariannu 11.45% (yn ôl amcanestyniad poblogaeth parciau cenedlaethol – yn seiliedig ar 2018 – a gyhoeddwyd ym mis Mai 2021) o gostau Gweithwyr a Chyflenwadau a Gwasanaethau'r Gyllideb Cynllunio Strategol. Bydd y costau sy'n weddill yn cael eu hariannu'n gyfartal rhwng Cynghorau Sir Powys a Cheredigion a fydd yn cynnwys costau'r Gwasanaeth Cymorth a ddarperir gan y ddau Gyngor.

3.4 Cytunir ar y sail ar gyfer ariannu cyllideb CBC y Canolbarth yn flynyddol.

**4. Materion Ariannol Eraill:**

4.1 Bydd gwargedau sy'n cronni mewn unrhyw flwyddyn yn cael eu cynnwys a'u clustnodi (nodir y Gyllideb Cynllunio Strategol a'r Gyllideb Gyffredinol ar wahân) o fewn cyfrif wrth gefn CBC y Canolbarth a chânt eu defnyddio ar gyfer gwariant yn y dyfodol. Y rhagdybiaeth yw y bydd y gyllideb wedi'i gwario'n llawn erbyn 31 Mawrth 2023, ac o ganlyniad ni argymhellir ar hyn o bryd bod swm

yn cael ei gymeradwyo i'w gadw wrth gefn ar gyfer gwariant yn y dyfodol.

4.2 Nid oes gan CBC y Canolbarth unrhyw rwymedigaethau sydd heb eu talu mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ariannol gynharach, ac o ganlyniad ni argymhellir ar hyn o bryd bod swm yn cael ei gymeradwyo i'w gadw at y diben hwn.

4.3 Bydd y gyllideb yn cael ei hadolygu'n ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol a'i diwygio fel y bo'n briodol ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol a’r blynyddoedd i ddod.

## 5. Asesiad Effaith Integredig:

5.1 Nid oes angen Asesiad Effaith Integredig ar gyfer yr adroddiad hwn gan fod sefydlu'r CBC yn cael ei ategu gan ddeddfwriaeth a bydd yr adroddiad hwn yn sefydlu trefniadau ariannol yn unol â deddfwriaeth.

## 6. Effeithiau ar y Gweithlu:

6.1 Ar hyn o bryd, bydd awdurdodau cyfansoddol yn ymgymryd ag unrhyw gyflogaeth o fewn CBC y Canolbarth.

## 7. Effeithiau Cyfreithiol:

7.1 Mae Rhan 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn darparu ar gyfer sefydlu CBCau, drwy reoliadau, a chydymffurfir â hyn a rhwymedigaethau deddfwriaethol eraill wrth sefydlu CBCau. Yn benodol, daeth Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth i rym ar 1 Ebrill 2021 gan nodi y dylid sefydlu'r CBC a'r amserlenni ar gyfer cyflawni swyddogaethau penodol.

7.2 Mae rheoliad 16 a 17 o Reoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth 2021 yn manylu ar y broses ar gyfer cytuno ar gostau a’u hariannu.

## 8. Effeithiau o ran Rheoli Risg:

8.1 Byddai methu â phennu cyllideb gytbwys yn golygu bod Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth yn torri ei rwymedigaethau gan wneud ei hun yn agored i her gyfreithiol. Yn ogystal, rhaid rhoi trefniadau addas ar waith i sicrhau bod yr awdurdodau cyfansoddol ac awdurdod y parc cenedlaethol yn gallu cyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol wrth sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth.

## 9. Ymgynghori:

9.1 Nid oes gofyniad i ymgynghori â'r cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

## 10. Y Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:

10.1 Sicrhau bod y gyllideb ariannol yn cael ei phennu ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru yn unol â'r gofynion deddfwriaethol perthnasol sy'n berthnasol i CBCau.

## 11. Gweithredu'r Penderfyniad:

11.1 Cynigir gweithredu'r penderfyniad hwn ar unwaith.

## 12. Atodiadau: Cyllideb Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth 2022/23

12.1 Atodiad A – Y Gyllideb ar gyfer 2022/2023

## 13. Rhestr o Bapurau Cefndir

13.1 Dim

## 14. Argymhellion

O ran y Gyllideb Gyffredinol

(a) Cymeradwyo gosod Cyllideb Gwariant Cyffredinol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth ar gyfer 2021/22 ar sero, ac felly ni chodir ardoll yn erbyn Cynghorau Sir Powys a Cheredigion.

(b) Cymeradwyo Cyllideb Gwariant Cyffredinol o £120,000 ar gyfer Cyd-Bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru ar gyfer 2022/23 fel yr amlinellir yn Atodiad A.

(c) Cymeradwyo llinell wrth gefn o £3,000 yng Nghyllideb Gwariant Cyffredinol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth ar gyfer 2022/23.

(d) Cymeradwyo neilltuo swm o sero i'w gadw fel cronfa wrth gefn i dalu am y gwariant yr eir iddo mewn cysylltiad â blynyddoedd ariannol i ddod o Gyllideb Gwariant Cyffredinol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth ar gyfer 2022/23.

(e) Cymeradwyo, os bydd tanwariant yn erbyn y Gyllideb Gyffredinol erbyn diwedd 2022/23, y bydd y tanwariant yn cael ei gadw mewn cronfa wrth gefn a glustnodwyd yn benodol ar gyfer gwariant y Gyllideb Gyffredinol mewn blynyddoedd i ddod.

(f) Cymeradwyo swm o sero i dalu unrhyw rwymedigaethau sydd heb eu talu mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ariannol gynharach o Gyllideb Gwariant Cyffredinol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth ar gyfer 2022/23.

(g) Cymeradwyo ardoll y gellir ei chodi yn erbyn Cynghorau Sir Powys a Cheredigion o £60,000 yr un mewn perthynas â Chyllideb Gwariant Cyffredinol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth ar gyfer 2022/23.

O ran y Gyllideb Cynllunio Strategol

(h) Cymeradwyo gosod Cyllideb Gwariant Cynllunio Strategol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth ar gyfer 2021/22 ar sero ac felly ni chodir ardoll yn erbyn Cynghorau Sir Powys a Cheredigion nac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

(i) Cymeradwyo Cyllideb Gwariant Cynllunio Strategol o £40,000 ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth ar gyfer 2022/23 fel yr amlinellir yn Atodiad A.

(j) Cymeradwyo llinell wrth gefn o £1,000 yng Nghyllideb Gwariant Cynllunio Strategol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth ar gyfer 2022/23.

(k) Cymeradwyo neilltuo swm o sero i'w gadw fel cronfa wrth gefn i dalu am y gwariant yr eir iddo mewn cysylltiad â blynyddoedd ariannol i ddod o Gyllideb Gwariant Cynllunio Strategol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth ar gyfer 2022/23.

(l) Cymeradwyo, os bydd tanwariant yn erbyn y Gyllideb Cynllunio Strategol erbyn diwedd 2022/23, y bydd y tanwariant yn cael ei gadw mewn cronfa wrth gefn a glustnodwyd yn benodol ar gyfer gwariant y Gyllideb Cynllunio Strategol mewn blynyddoedd i ddod.

(m) Cymeradwyo swm o sero i dalu unrhyw rwymedigaethau sydd heb eu talu mewn unrhyw flwyddyn ariannol gynharach mewn perthynas â Chyllideb Gwariant Cynllunio Strategol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth ar gyfer 2022/23.

(n) Cymeradwyo ardoll y gellir ei chodi yn erbyn Cynghorau Sir Powys a Cheredigion o £18,283 yr un ac ardoll o £3,434 y gellir ei chodi yn erbyn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog mewn perthynas â Chyllideb Gwariant Cynllunio Strategol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth ar gyfer 2022/23.